

Polisi ar gyfer Dosbarthu Bagiau Tywod yn ystod Achosion o Llifogydd

1. Camau Ymarferol ar gyfer Perchnogion Eiddo

1.1 Bagiau tywod yw un o'r dulliau mwyaf cyfarwydd o gadw dŵr llifogydd allan o eiddo. Mae'r deunyddiau ar gael yn hwylus, yn gymharol rad, ac yn y mwyafrif o achosion, maent yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai anfanteision i'w defnyddio, fel y rhestrir isod:

- Mae'n cymryd amser i'w llenwi, ac mae angen dau berson
- Gallant fod yn anodd eu trafod
- Gallant gynnwys llygryddion fel carthffosiaeth os deuant i gysylltiad â dŵr llifogydd.
- Mae deunydd y sachau eu hunain yn fiogdiraddadwy, a bydd yn ymddatod gydag amser.

1.2 Anogir perchnogion eiddo sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd, felly, i gadw eu stoc eu hunain o fagiau tywod gwag, lle bo modd, ynghyd â stoc digonol o dywod i lenwi'r bagiau ar adegau pan fydd llifogydd yn bosibl. Ceir rhagor o wybodaeth am fesurau ymarferol i gyfyngu cymaint â phosibl ar y dŵr llifogydd sy'n dod i mewn a difrod i eiddo yn nogfen Asiantaeth yr Amgylchedd "Canllawiau i Gyfyngu ar Ddifrod", sydd ar gael o wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar ben hynny, mae cynnyrch masnachol ar gael ar y farchnad i ddiogelu agoriadau megis drysau, ffenestri a thyllau awyr.

1.3 Yn achos tywydd garw, a phan fydd perygl gwirioneddol y ceir llifogydd, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu bagiau tywod wedi'u llenwi i eiddo sy'n gwneud cais amdanynt. Byddwn yn ymateb yn gyntaf i achosion o lifogydd sy'n deillio o'r briffordd a ffynonellau heblaw prif afonydd. Mae'r prif afonydd yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru, na fyddant bob amser o reidrwydd mewn sefyllfa i ddarparu bagiau tywod, yn dibynnu ar y galw a'r amgylchiadau lleol. Felly, bydd pob cais a wneir i Gyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ystyried yng nghyswllt yr amgylchiadau pennaf, beth bynnag yw ffynhonnell y llifogydd. Dylid cadw mewn cof bod terfyn ar nifer y bagiau tywod sydd ar gael a'r gallu i'w dosbarthu, yn arbennig pan fo llifogydd yn digwydd ar raddfa helaeth. **Ni ddylid dibynnu ar y Cyngor Sir, felly, i ddarparu bagiau tywod fel prif amddiffyniad.**

Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i fannau lle gwyddys bod llifogydd yn broblem, lle gallai sawl eiddo ddi-dded llifogydd. Bydd y dosbarthu'n digwydd yn unol ag Adran 2 isod.

1.4 Bydd Swyddog y Wasg yn yr Awdurdod yn rhyddhau datganiad i'r wasg yn amlinellu'r polisi o ran bagiau tywod ar ddechrau'r hydref bob blwyddyn.

2. Dosbarthu

2.1 Fel arfer bydd ceisiadau'r cyhoedd am fapiau tywod o ganlyniad i rybuddion ynghylch llifogydd, rhybuddion ynghylch tywydd garw, neu achosion o lifogydd go iawn, yn cael eu derbyn yn uniongyrchol gan staff Ardal yn ystod oriau gwaith arferol. Y tu allan i'r oriau gwaith arferol, bydd ceisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Dyletswydd perthnasol, trwy fiwro'r Cyngor ar gyfer cyswllt 24 awr mewn argyfwng – y Llinell Gofal (Gweler y Llyfr Ffôn).

2.2 Fel arfer, bydd ceisiadau'n derbyn sylw yn nhrefn eu derbyn, a gwneir trefniadau i ddsbarthu bagiau tywod yn unol â cheisiadau. Fodd bynnag, ar adegau pan geir llifogydd helaeth mwy difrifol, bydd angen blaenoriaethu dosbarthiad y bagiau tywod yn ôl difrifoldeb y risg, y lleoliad a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y Cyngor Sir yn ymdrechu i ymateb i'r mwyafrif o geisiadau, ond gall fod peth oedi, yn enwedig yn achos digwyddiadau mwy eang neu ar raddfa fawr.

2.3 Fel arfer, bydd bagiau tywod yn cael eu dosbarthu i'r pwynt mynediad i eiddo sydd agosaf at y briffordd neu'r ffordd fynediad. Cyfrifoldeb perchennog yr eiddo fydd symud y bagiau tywod i'w lle oddi mewn i ffiniau'r eiddo. Gall gweithlu'r Cyngor helpu gyda hyn o dan rai amgylchiadau, ond ni fydd cymorth o'r fath yn bosibl bob amser.

2.5 Yn ystod tywydd eithafol, gall fod angen galw ar y lluoedd arfog i roi cymorth allanol i ddsbarthu rhagor o fapiau tywod. Gall hyn ddigwydd pan fydd y stoc o fapiau tywod sydd wedi'u llenwi wedi'i ddisbyddu, ac mae gormod o alwadau ar yr adnoddau llafur. Pennaeth y Gwasanaethau Stryd fydd yn penderfynu galw ar y lluoedd arfog, a hynny wedi trafod gyda'r Swyddogion Dyletswydd. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Stryd yn cyflwyno cais ffurfiol trwy Ganolfan Argyfyngau'r Cyngor. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gofyn am gymorth gan y Lluoedd Arfog wedi'u nodi yng Nghynllun Integredig y Cyngor ar gyfer Ymateb i Argyfyngau. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu y bydd y lluoedd arfog ar gael o dan y cyfryw amgylchiadau, a bydd amseriad eu hymateb yn dibynnu ar eu lleoliad/hymrwymadau ar y pryd.

2.6 Ni chaniateir i aelodau o'r cyhoedd gasglu bagiau tywod yn uniongyrchol o unrhyw Depo o eiddo'r Cyngor, am resymau iechyd a diogelwch.

3. Stociau a Chyflenwadau

3.1 Bydd y Cyngor Sir bob amser yn cadw 500 o fagiau tywod wedi'u llenwi, mewn cyflwr da, yn barod i'w defnyddio, ym mhob un o'r lleoliadau canlynol:

- a) Depo Priffyrdd Trostre, Llanelli
- b) Depo Cillefwr, Caerfyrddin
- c) Depo Glanaman
- d) Depo Llanymddyfri

3.2 Bydd y Cyngor Sir yn cadw stoc wrth gefn o 20 tunnell o dywod ym mhob Depo a restrir uchod bob amser, ynghyd â chyflenwad digonol o fagiau tywod heb eu llenwi.